Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun Cadernid **Covid-19** ar gyfer y Sector Ôl-16

Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu.
Stay Safe. Stay Learning.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 3

**Cefndir** 4

**Grwpiau a effeithir yn bennaf gan Covid-19** 7
Dysgwyr cyfredol
Darpar ddysgwyr ac unigolion eraill
Darparwyr dysgu
Eraill

**Cwmpas a diben y Cynllun Cadernid** 10

**Amlinelliad o'r Cynllun Cadernid Ôl-16** 12
Cam 1: Achub
Cam 2: Adolygu
Cam 3: Adnewyddu

**Ein ffyrdd o weithio** 18

**Meysydd cyflawni allweddol** 21
Dilyniant dysgwyr a phontio
Dysgu o bell
Llesiant ac ymgysylltiad dysgwyr
Cymorth i gyflogaeth ac adferiad economaidd
Hybu sefydlogrwydd a chadernid
Gwerthuso a diogelu'r dyfodol

# Cyflwyniad

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i rhanddeiliaid i ddiwallu anghenion newidiol dysgwyr, cymunedau a chyflogwyr Cymru yn ystod pandemig Covid-19 a thu hwnt. Byddwn yn hybu cadernid y sector ôl-16 , fel y gall darparwyr dysgu addasu; er mwyn rheoli tarfu ar ddysgu yn effeithiol; ac er mwyn cefnogi llesiant dysgwyr a staff.

[1]Dangosodd arolwg o ddarpariaeth gyfatebol yn Lloegr ymgysylltiad o 81% mewn dysgu ar-lein i brentisiaid **https://www.edquals.com/news/report-most-apprentices-are-still-receiving-training/**

# Cefndir

Dechreuodd yr achosion o Covid-19 (coronafeirws) yn Tsieina ym mis Rhagfyr 2019 gan ledaenu i'r DU ym mis Ionawr 2020. Yn ystod gwanwyn 2020, cynyddodd Llywodraethau'r DU a Chymru fesurau cadw pellter cymdeithasol yn raddol, gyda'r bwriad o arafu lledaeniad y feirws. Caeodd ysgolion, colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb yng Nghymru ar ddydd Gwener 20 Mawrth (ar wahân i ddarpariaeth graidd mewn ysgolion ar gyfer plant agored i niwed a phlant gweithwyr allweddol).

Yn y sector ôl-16, newidiodd darparwyr i gynnig dysgu o bell i'r graddau y bo hynny'n bosibl, yn bennaf trwy ddulliau digidol; yn ymarferol, mae'r trefniadau wedi amrywio, o ystyried yr amrywiaeth eang yn amgylchiadau dysgwyr, y gallu i gael gafael ar ddyfeisiau a chysylltedd, a'r mathau o gyrsiau.

Mae ColegauCymru wedi adrodd bod y sector Addysg Bellach wedi gosod ei feincnod ei hun ar gyfer ymgysylltu ar-lein sy'n adlewyrchu'r oriau cyswllt dan arweiniad wythnosol ar gyfer prif gymhwyster cyfartalog Lefel 2 neu Lefel 3. Mae colegau wedi nodi bod tua 75 y cant o ddysgwyr yn bodloni'r meincnod hwn; mae hyn yn amrywio o goleg i goleg, gyda gallu dysgwyr i gael gafael ar ddyfeisiau a chysylltedd yn effeithio arno, sydd yn ei dro yn adlewyrchu gwahaniaethau economaidd a daearyddol. Mae rhai prentisiaid wedi eu rhoi ar ffyrlo gan eu cyflogwyr ac yn methu â pharhau â'u dysgu "yn y gwaith"; mae hyn yn amrywio'n fawr yn ôl sector, sy'n golygu bod bron pob un prentis yn dal i weithio i rai darparwyr, tra bod hyd at 75% ar ffyrlo gan ddarparwyr eraill ond yn dal i allu parhau i ddysgu ar-lein. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae darparwyr yn cyflwyno dysgu hyblyg ar-lein, ac yn defnyddio strategaethau "cadw mewn cysylltiad" i gadw diddordeb dysgwyr[1]. O ran dysgu oedolion sy'n cael ei ariannu trwy awdurdodau lleol, mae amrywiaeth o ddulliau a phlatfformau yn cael eu defnyddio, ond nid oes gan lawer o'r dysgwyr ddyfeisiau, cysylltedd a/neu'r sgiliau i allu dysgu o bell.

Hyd yn oed cyn i ddarparwyr dysgu gau eu drysau, daeth yn amlwg bod graddfa'r achosion o Covid-19 yn golygu y byddai angen rhai penderfyniadau polisi digynsail. Ar 16 Mawrth, cafwyd cyhoeddiad fideo ar y cyd gan y Gweinidog Addysg ac Estyn y byddai arolygu a gweithgareddau cysylltiedig eraill ar gyfer ysgolion a darparwyr yn cael eu hatal o'r dyddiad hwnnw nes i'r sefyllfa bresennol fynd heibio. Gwnaed y penderfyniad hwn i helpu darparwyr addysg a hyfforddiant i ganolbwyntio'n llawn ar lesiant eu dysgwyr, eu staff a'u teuluoedd. Ar 18 Mawrth, **cyhoeddodd** y Gweinidog Addysg na fyddai arholiadau'r haf 2020 (TGAU, Lefel AS a Lefel A) yn cael eu cynnal; byddai graddau'n cael eu dyfarnu i ddysgwyr ar sail gwaith a gwblhawyd ganddynt eisoes ac amcangyfrifon athrawon. Mae Cymwysterau Cymru wedi bod yn gweithio gyda rheoleiddwyr a sefydliadau dyfarnu eraill y DU i ddatblygu dull gweithredu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol, sy'n cynnwys cymysgedd o ganlyniadau wedi'u cyfrifo lle bo hynny'n bosibl, ac asesiadau wedi'u haddasu neu eu gohirio.

Mae effaith economaidd yr argyfwng yn datblygu ar gyflymder rhyfeddol, gyda nifer y diswyddiadau posibl, busnesau'n cau, a lefelau diweithdra yn debygol o godi i dros 10%. Mae hyn yn effeithio ar filiynau o bobl sydd ar ffyrlo, yn colli incwm, neu'n colli eu swyddi yn gyfan gwbl.

Fel mewn dirwasgiadau blaenorol, gellir disgwyl mai'r bobl a fydd yn dioddef yr effeithiau mwyaf difrifol fydd y rhai hynny sydd eisoes dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur. Mae tystiolaeth dda, fel y nodwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol[2] a'r Resolution Foundation[3], bod effeithiau anffafriol yn debygol o gael eu teimlo yn arbennig gan y rhai hynny mewn swyddi cyflog isel; y rhai hynny â lefel sgiliau is; y rhai hynny â thelerau cyflogaeth mwy "bregus"; a gweithwyr iau. Mae'r rhain hefyd yn grwpiau sydd wedi dioddef yn anghymesur yn sgil dirwasgiadau blaenorol.

[2] **https://www.ifs.org.uk/publications/14821**
[3] **https://www.resolutionfoundation.org/publications/risky-business/**

Mae pobl ifanc a newydd-ddyfodiaid i'r farchnad lafur yn arbennig o agored i niwed. Mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod "dosbarth 1981" wedi profi creithio hirhoedlog trwy ddechrau yn y farchnad lafur yn ystod dirwasgiad ac oherwydd diweithdra cynnar, a bu ffocws parhaus ar y grŵp hwn yn y dirwasgiad diwethaf. Mae pobl ifanc hefyd yn fwy tebygol o fod ar gontractau dim oriau, ac felly mewn mwy o berygl o golli incwm.

Mae cynnig Llywodraeth Cymru yn cwmpasu sgiliau a chyflogadwyedd yn hanfodol wrth gefnogi'r rhai sydd fwyaf tebygol o ddioddef effeithiau negyddol ym marchnad lafur Cymru yn y dyfodol. Bydd ein rhwydwaith darparwyr ôl-16 yn chwarae rhan ganolog yn ein hadferiad economaidd a chymdeithasol. Mae mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r rôl hon, gyda chenhadaeth ddinesig sy'n cynnwys gwasanaethu grwpiau difreintiedig cymdeithas yn ogystal â diwallu anghenion y farchnad lafur.

Mae'r gwaith cychwynnol wedi canolbwyntio ar gynnig eglurder a sicrwydd mewn meysydd sy'n cynnwys cyllid, cymorth i ddysgwyr, a gofynion perfformiad, fel bod darparwyr yn gallu gwneud penderfyniadau a gweithredu arnynt. Mae'r cynllun hwn yn nodi camau tymor canolig a thymor hwy i helpu i gynorthwyo ein darparwyr dysgu, dysgwyr a staff i baratoi ar gyfer y "normal newydd".

## Grwpiau a effeithir yn bennaf gan Covid-19

Er bod Covid-19 (ac ymatebion y llywodraeth iddo) yn amlwg yn effeithio ar bawb mewn cymdeithas, mae'r adborth gan ddarparwyr, dysgwyr a rhanddeiliaid hyd yma yn awgrymu bod y tarfu yn mynd i fod yn arbennig o arwyddocaol i rai dysgwyr a grwpiau cysylltiedig, ac o ganlyniad nhw ddylai fod yn ganolbwynt i'r camau gweithredu yn ein cynllun cadernid. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r grwpiau hyn.

### Dysgwyr cyfredol

- Dysgwyr Lefel A Addysg Bellach ym "Mlwyddyn 13" sydd angen paratoi ar gyfer symud ymlaen i Addysg Uwch yn ystod tymor yr hydref
- Dysgwyr yn symud ymlaen o Flynyddoedd 11-13 i addysg bellach, prentisiaethau a llwybrau eraill
- Dysgwyr sydd â gofynion penodol yn seiliedig ar le na ellir eu bodloni ar hyn o bryd (fel lleoliadau gwaith, gwaith labordy neu stiwdio, sioeau celf/celfyddydau perfformio, amgylcheddau gwaith realistig); yn cynnwys y rhai sydd angen cwblhau dysgu/asesiadau galwedigaethol cyn gallu symud ymlaen
- Dysgwyr nad ydynt yn gallu cyrchu'r offer, y cysylltedd neu'r sgiliau i wneud defnydd o ddysgu ar-lein
- Dysgwyr sy'n ymddieithrio pan nad ydynt mewn sefyllfa ddysgu wyneb yn wyneb
- Dysgwyr ar raglenni cyflogadwyedd sy'n methu symud ymlaen i gyflogaeth barhaus
- Y rhai hynny sy'n dysgu trwy gyfrwng Cymraeg nad ydynt yn gallu cyrchu'r ystod o ddysgu cyfrwng Cymraeg a'r adnoddau sydd eu hangen
- Prentisiaid sy'n methu â pharhau â rhaglen ddysgu lawn oherwydd i'w gweithle gau
- Dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol (yn cynnwys y rhai hynny sydd i fod i symud i mewn ac allan o ddysgu ôl-16)
- Dysgwyr agored i niwed ym mhob lleoliad
- Dysgwyr mwy abl a thalentog sydd angen ymestyn a herio parhaus, yn cynnwys carfan Seren
- Dysgwyr yn addasu i ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb, yn cynnwys y rhai sydd wedi derbyn graddau amcangyfrifedig ac a allai fod angen cymorth ychwanegol i 'gamu i fyny' i'r lefel nesaf
- Myfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach mewn gofal iechyd a phroffesiynau perthynol a allai wirfoddoli i weithio yn y GIG, a'r rhai hynny a fydd yn graddio'n gynnar er mwyn ategu'r gweithlu iechyd
- Myfyrwyr rhyngwladol sy'n destun cyfyngiadau symud yng Nghymru

**Darpar ddysgwyr ac unigolion eraill**

- Dysgwyr mewn Addysg Bellach ac oedolion sy'n dysgu a fyddai wedi bod yn dechrau eu cyrsiau yn ystod tymor yr haf 2020 (oedolion/rhan-amser yn bennaf)
- Dysgwyr sydd angen mwy o gefnogaeth, cyngor ac arweiniad i newid rhaglen neu ddarparwr oherwydd nad ydynt wedi gwneud y dewis cywir ar eu cyfer hwy
- Prentisiaid newydd sy'n methu cychwyn ar y rhaglen
- Darpar fyfyrwyr addysg uwch a allai dderbyn cynigion isel neu ddiamod na fyddai o reidrwydd o'r budd pennaf iddynt
- Myfyrwyr addysg uwch newydd sy'n pontio i addysg uwch o dan amgylchiadau anarferol
- Oedolion a phobl ifanc di-waith neu economaidd anweithgar na ellir eu cyfeirio at ddarpariaeth cyflogadwyedd wyneb yn wyneb
- Y rhai hynny a ddiswyddwyd/na allant gael gwaith o ganlyniad i gau busnesau a chyfyngiadau ar gyflogwyr yn sgil Covid-19, yn enwedig y rhai hynny mewn swyddi â chyflog isel; y rhai hynny â lefel sgiliau is; y rhai hynny â thelerau cyflogaeth mwy "bregus"; a gweithwyr iau.
- Gweithwyr ar ffyrlo sy'n awyddus i ailsgilio neu uwchsgilio

### Darparwyr dysgu

- Ymarferwyr sy’n gorfod datblygu a darparu dysgu ar-lein/o bell yn Gymraeg a Saesneg, a rheoli cyflwyniad asesiadau ymarferol ar gyfer dysgwyr na ellir dyfarnu canlyniadau wedi’u cyfrifo ar eu cyfer
- Ymarferwyr â chyfyngiadau ar eu gallu i ddarparu ar-lein (megis galluedd, defnyddio platfformau dysgu ar-lein, dewisiadau iaith)
- Staff sy’n profi anawsterau personol o ran salwch, cyfrifoldebau gofalu, iechyd meddwl
- Arweinwyr sector a staff sydd angen arweiniad, sefydlogrwydd cyllido, cefnogaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau
- Darparwyr dysgu sy’n cyfranogi mewn ymatebion cymunedol a dinesig i Covid-19 trwy eu hadeiladau, staff a myfyrwyr
- Arweinwyr sector a staff sy’n gorfod cynllunio ar gyfer cefnogi dysgwyr galwedigaethol sy’n ‘dychwelyd’ yn ystod haf neu hydref 2020, yn ogystal â rhai sy’n dechrau o’r newydd
- Arweinwyr sector a staff sydd angen datblygu dulliau newydd i ymgysylltu â dysgwyr sy’n dychwelyd i ddysgu ôl-16 neu’n symud ymlaen iddo, ym mhob cyfrwng

### Eraill


- Rhieni/gofalwyr dysgwyr yn y sector ôl-16 neu ddysgwyr sy’n bwriadu symud ymlaen i’r sector ôl-16
- Cyflogwyr sydd angen gohirio recriwtio prentisiaid
- Cyflogwyr sydd angen uwchsgilio eu gweithlu i ymdopi â newidiadau economaidd (yn cynnwys y rhai a allai gael eu heffeithio gan gyllid wedi’i ailbennu gan y llywodraeth o ganlyniad i Covid-19)

# Cwmpas a diben y Cynllun Cadernid

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys y sectorau addysg uwch, addysg bellach, prentisiaethau, cyflogadwyedd a dysgu oedolion. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CCAUC a Phrifysgolion Cymru i ddatblygu datganiad sy'n adlewyrchu natur hynod annibynnol y sector a'r ffordd y mae'n cael ei ariannu, a bydd ein cynllun cadernid yn ategu hyn trwy ymgorffori gweithgareddau polisi Addysg Uwch. Nid yw dosbarthiadau chwech o fewn cwmpas uniongyrchol y cynllun hwn, gan fod cynllun dilyniant dysgu ar wahân ar gyfer ysgolion.

Fodd bynnag, bydd cyflwyno ein cynllun yn cael ei gydlynu â gweithgareddau yn y sector ysgolion; bydd hyn o gymorth i gefnogi pontio dysgwyr er gwaethaf y tarfu ar eu dysgu a'u hasesu, ac yn cynorthwyo dysgwyr i wneud y dewisiadau sy'n iawn iddyn nhw ac i allu datblygu eu llwybr dysgu gwybodus eu hunain. Mae'n bwysig bod negeseuon clir a chydgysylltiedig i ddysgwyr a rhieni ar draws yr holl sectorau addysg, yn enwedig o ran ailagor lleoliadau ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb.

Mae'r diagram isod yn crynhoi'r cysylltiad rhwng y Cynllun Cadernid Ôl-16 a chynlluniau a strategaethau Covid-19 eraill.




### Bwriad y cynllun hwn yw galluogi Llywodraeth Cymru i:

- Ddatgan yn glir sut mae'n disgwyl i ddarparwyr ôl-16 ymateb;
- Diffinio'r cymorth a'r wybodaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn eu darparu i'r sector;
- Amlinellu'r grwpiau blaenoriaeth sy'n debygol o ddioddef yr effaith fwyaf ac sydd angen cefnogaeth gyntaf;
- Strwythuro ei waith gyda'r sector ôl-16 trwy gydol 2020 a thu hwnt;
- Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i gyfleu penderfyniadau, cynlluniau a gofynion yn brydlon ac yn effeithiol; a
- Cyfleu gwybodaeth allweddol i ddysgwyr cyfredol a darpar ddysgwyr, rhieni a gofalwyr, a chyflogwyr wrth i'r sefyllfa newid.

# Amlinelliad o'r Cynllun Cadernid Ôl-16

Mae ein strategaeth wedi'i rhannu'n dri cham:

**ACHUB**

Sicrhau bod sicrwydd cyllid gan ddarparwyr a bod trefniadau parod ar gyfer parhad dysgu ar waith.

**MAWRTH – GORFFENNAF 2020**

**ADOLYGU**

Cynllunio ar gyfer newidiadau posibl i ddarparu, cyllido a chyflenwi dysgu ar gyfer hydref 2020 a thu hwnt.

**MAI – MEDI 2020**

**ADNEWYDDU**

Rhoi trefniadau diwygiedig ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, a gwerthuso effeithiau Covid-19.

**MEDI 2020 – MAWRTH 2021**

## CAM 1: ACHUB

Mae'r cam hwn eisoes ar waith, ac mae wedi canolbwyntio ar y newid i ddarpariaeth ar-lein, gyda gwaith cysylltiedig i sicrhau sefydlogrwydd cyllid i ddarparwyr a dysgwyr. I ddysgwyr, yr effaith fwyaf sylweddol yw canslo Lefel A a TGAU a threfniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau galwedigaethol; mae hyn wedi achosi cryn ansicrwydd i ddysgwyr, a gwaith sylweddol i staff sy'n gorfod gweithio gyda sefydliadau dyfarnu i amcangyfrif graddau, ochr yn ochr â'u hymdrechion i gadw diddordeb dysgwyr a'u paratoi ar gyfer pontio yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Fe wnaethom ni cymryd camau buan i sicrhau cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer parhad cyllid i addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion. Mae hyn wedi rhoi rhywfaint o sefydlogrwydd i'r rhwydwaith ac wedi galluogi darparwyr i ganolbwyntio ar y newid i ddarpariaeth ar-lein. Serch hynny, mae darparwyr yn profi colled incwm masnachol, incwm o Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac incwm rhyngwladol sy'n debygol o effeithio ar eu hiechyd ariannol. Rydym yn ystyried effeithiau hynny, yn cynnwys erydiad y seilwaith sydd ar gael i gyflawni dysgu pan fydd y drefn arferol, neu ryw fersiwn ohoni, yn dychwelyd.

Mae sefydlogrwydd cyllid ar gyfer addysg uwch hefyd yn flaenoriaeth allweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, CCAUC a Phrifysgolion Cymru i werthuso a phenderfynu ar ymateb priodol. Mae'r Gweinidog Addysg wedi rhoi syniad i CCAUC o'r cyllid a fydd ar gael iddynt ar gyfer addysg uwch yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Rydym wedi cyhoeddi na fydd mesurau perfformiad ar gyfer deilliannau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn cael eu cynhyrchu ar gyfer 2019/20, sydd, ar y cyd ag atal arolygiadau Estyn, wedi rhyddhau'r sector i allu canolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant ei ddysgwyr a staff. Mae ystyriaeth bellach ar y gweill i bennu'r effaith ar fesurau'r blynyddoedd i ddod.

Rydym wedi clywed llawer o enghreifftiau o ymarferwyr yn gweithio gydag egni ac arloesedd i symud i ddysgu ar-lein. Mae darparwyr yn gallu troi at Jisc am gefnogaeth i'w helpu i ddatblygu eu seilwaith technegol a'u darpariaeth. Rydym yn casglu gwybodaeth lawnach ar ba ddarpariaethau sy'n digwydd ar-lein, ble mae'r bylchau a sut y gallai dysgwyr gael eu cefnogi'n well trwy weithio ar y cyd. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol hefyd yn casglu ac yn comisiynu adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Rydym yn archwilio strategaethau, yn cynnwys y defnydd o gyllid, i sicrhau y gall dysgwyr sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol barhau i gael gafael ar y ddarpariaeth.

## CAM 2: ADOLYGU

**Adeg ysgrifennu, dyma ein rhagdybiaethau**

- Er y gall rhai dysgwyr ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb yn ystod tymor yr haf 2020, bydd llawer iawn na fydd yn gwneud hynny;
- Bydd angen parhau a gwella modelau dysgu cyfunol i lawer o ddysgwyr, os nad pob dysgwr;
- Bydd y gweithlu ôl-16 yn parhau i wynebu cyfres o heriau o ran newid i ddarparu a chefnogi ar-lein, amcangyfrif graddau, a sicrhau bod dysgwyr yn ymgysylltu, ac mae hyn oll yn galw am sgiliau cymhleth a dogn o arloesi;
- Bydd y tarfu yn sgil Covid-19 yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau o ddysgwyr, ac mae'r rhain yn debygol o gynnwys unigolion agored i niwed, oedolion sy'n dysgu yn y gymuned, y rhai sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol, y rhai â sgiliau is a'r rhai a oedd eisoes mewn perygl o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant);
- Bydd angen cymorth ymarferol ac emosiynol ar lawer o ddysgwyr, os nad pob dysgwr, i ailintegreiddio i ddysgu ar ôl cyfnod hirfaith o ynysu;
- Rhagwelir y bydd yr economi yn crebachu rhwng chwarter a thraean dros ail chwarter eleni. Mae'n ymddangos bod y galw am lafur yn cwympo, gydag ymchwydd digynsail yn hawliadau Credyd Cynhwysol a hawliadau Lwfans Chwilio am Waith ar ei newydd wedd;
- Nid yw'r effeithiau'n cael eu teimlo'n gyfartal ar draws y boblogaeth ac o'r herwydd rhagwelir y bydd rhai grwpiau hyd yn oed yn fwy agored i niwed, ac yn dioddef effeithiau negyddol gwaeth nag eraill, yn cynnwys yr ifanc, y rhai ar incwm is a'r rhai â lefelau sgiliau is;
- Rydym yn debygol o weld diswyddiadau a/neu lai o gyfleoedd cychwyn prentisiaethau, ond mae'n anodd rhagweld neu feintioli hynny hyd yn hyn;

- Mae sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yn debygol o weld cwymp sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr o'r UE a'r posibilrwydd o gynnydd mewn gohirio, gydag effaith ariannol ddifrifol yn ganlyniad i hynny; a
- Rydym yn debygol o wynebu cylchoedd pellach o gadw pellter cymdeithasol, felly mae angen i ddarparwyr, Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i gynyddu capasiti fel ein bod hi'n gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithlon.

Mae hyn yn golygu bod angen i ni weithio gyda'n gilydd i ragweld a chynllunio ar gyfer "y normal newydd" a all barhau am gryn amser, ac a allai edrych yn wahanol iawn i ddarparu dysgu traddodiadol. Mae capasiti ffisegol amgylcheddau dysgu i gadw at reolau cadw pellter cymdeithasol yn ffactor allweddol, ac mae'n amrywio'n fawr ymhlith darparwyr (a safleoedd unigol sydd gan y darparwyr).

Mae angen i ni hybu ein cadernid sefydliadol ein hunain, a chadernid sefydliadol y rhwydwaith darparwyr ôl-16, er mwyn cyflawni'r heriau hyn. Yn ystod 2020, bydd rhai mathau o ddarparu rheolaidd yn ailddechrau, er bod potensial i gylchoedd o gyfyngu pellach fel yr amlinellwyd uchod. Bydd angen i ni weithio gyda'r sector i gefnogi dychweliad graddol i ddysgu wyneb yn wyneb, gan ganolbwyntio ar grwpiau blaenoriaeth o ddysgwyr ac, yn anad dim, ar sicrhau diogelwch a llesiant ein dysgwyr a'n staff.

Bydd rhai dysgwyr yn ailafael mewn dysgu wyneb yn wyneb cyn diwedd tymor yr haf 2020, yn cynnwys prentisiaid, a rhai dysgwyr Addysg Bellach. Bydd rhai yn cychwyn neu'n ailddechrau astudio yn nhymor yr hydref, yn cynnwys myfyrwyr Addysg Uwch. Bydd eraill yn symud ymlaen i'w lefel astudio nesaf, ond efallai y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt i ail-ymgysylltu â dysgu a "chamu i fyny" i ofynion eu rhaglenni newydd. Mae'n bosibl y bydd angen i ddarparwyr ystyried cymorth ychwanegol i ddysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn ystod y cyfnod pontio i ddysgu ôl-16 neu addysg uwch. Rhagwelwn y bydd dull "cyfunol" o ddysgu yn parhau am gryn amser i lawer o grwpiau o ddysgwyr,

os nad i bob grŵp; gall hwn fod yn brofiad gwahanol iawn, gydag ymarferwyr a dysgwyr yn rhoi cynnig ar dechnegau newydd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, gweithio mewn grŵp, dysgu gwahaniaethol, cyfoethogi a chefnogaeth. Bydd modelau addysgu a dysgu effeithiol ac arloesol y gallwn ddysgu ohonynt ac adeiladu arnynt.

Yn y cyfamser, mae'r rhwydwaith darparwyr (yn cynnwys Cymru'n Gweithio) yn debygol o wynebu galw ychwanegol gan unigolion sydd wedi cael eu diswyddo o ganlyniad i effaith economaidd Covid-19.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ei hun sicrhau bod tîm profiadol ar waith i gefnogi cyfathrebu a pholisi ynghlwm wrth Covid-19; bydd yn dechrau cynllunio ymlaen llaw ar gyfer effeithiau tymor hwy ar gynllunio, cyllid, mesurau perfformiad, comisiynu dysgu yn y gwaith, Seren, a phrosiectau neu weithgareddau a gafodd eu gohirio yn ystod y cyfnod Achub. Gall hyn gynnwys targedau, canllawiau a phroffiliau cynllunio diwygiedig ar gyfer darparwyr.

## CAM 3: ADNEWYDDU

Byddwn yn adolygu ein hymagwedd tymor canolig a thymor hwy tuag at gomisiynu, cynllunio, cyllido a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer blwyddyn academaidd 2020/21, gan weithio gyda'r sector, Estyn a phartneriaid eraill.

Yn ogystal â chefnogi'r sector i ddarparu yn ystod y cyfnod hwn, yn cynnwys ymdopi â gofynion newydd a newidiol dysgwyr, bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddechrau gwerthuso effeithiau Covid-19, a chynllunio i ddiwallu anghenion newidiol yr economi. Mae gan brentisiaethau rôl hanfodol wrth gefnogi adferiad yr economi, a byddwn yn gweithio ar draws y sectorau i ddeall sut y gall y rhaglen gefnogi twf. Er bod heriau digynsail Covid-19 wedi gofyn am ymatebion cyflym a rhai penderfyniadau anodd, rydym yn rhagweld rhai canlyniadau cadarnhaol hefyd, yn cynnwys:

- Llywodraeth Cymru'n gwneud penderfyniadau cyflymach a mwy tryloyw, yn cynnwys ymatebion uniongyrchol i ymholiadau a cheisiadau gan ddarparwyr;
- cyfathrebu aml ac eglur gyda'r sector a rhanddeiliaid eraill fel Cymwysterau Cymru ac UCM Cymru;
- llai o fiwrocratiaeth;
- ymatebion cyflym gan sefydliadau i anghenion cymunedol, yn cynnwys darparu eu hadeiladau ar gyfer ysbytai maes, cynhyrchu cyfarpar diogelu personol a gwirfoddoli gan staff a dysgwyr;
- cyfleoedd i gryfhau cyfathrebu gyda dysgwyr a'u cefnogi i ddod yn fwy gwydn ac annibynnol; a
- mwy o ddarpariaeth a chefnogaeth dysgu ar-lein, gan gyflymu ymateb y sector i'n gweledigaeth **Digidol 2030**, a chynnig cyfleoedd i ymestyn modelau dysgu cyfunol yn y dyfodol.

Wrth i'r "normal newydd" ddod i'r amlwg, mae angen i ni sicrhau nad yw cynnydd yn y meysydd hyn yn cael ei golli. Byddwn yn gweithio gyda'r sector, Estyn a phartneriaid eraill i helpu i werthuso'r newidiadau cadarnhaol sydd wedi digwydd ac i gynllunio er mwyn eu gwneud yn gynaliadwy. Ar yr un pryd, byddwn yn wynebu dirywiad economaidd sylweddol, gyda'r rhagolygon diweddaraf yn awgrymu gostyngiad o hyd at 35% i'r Cynnyrch Domestig Gros. Bydd y sector ôl-16 yn ganolog i strategaethau i gefnogi, ailsgilio ac uwchsgilio unigolion sy'n wynebu diweithdra neu dangyflogaeth o ganlyniad i ôl-effeithiau Covid-19. Er y gall niferoedd prentisiaethau ostwng, bydd hyn yn gofyn am newid sectorau â blaenoriaeth yn ogystal â chynyddu rhaglenni cyflogadwyedd, a chanolbwyntio ar ysgogi cyflogi a'r galw am lafur. Yn ystod y cam hwn, bydd angen i ni ail-ganolbwyntio ein rhaglenni a'n prosiectau 'busnes fel arfer', yn cynnwys y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r Comisiwn, a allai fod yn destun amserlen ddiwygiedig o ganlyniad i Covid-19. Yn ogystal, bydd datblygu polisi pontio mewn meysydd fel y cwricwlwm 16-19, ymgysylltu â dysgwyr, amddiffyniadau dysgwyr, cenhadaeth ddinesig a mwy o gydlynu ar draws y sector yn parhau ac yn cael ei lywio gan brofiadau Covid-19 er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol.

# Ein ffyrdd o weithio

Mae darparwyr ôl-16 wedi symud yn gyflym i ymateb i heriau Covid-19, gydag arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n arloesol ac ar garlam er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi cynnydd a llesiant eu dysgwyr. Rydym yn disgwyl y **bydd pob darparwr** yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau mai diogelwch a llesiant eu dysgwyr a'u staff yw'r brif ystyriaeth ym mhob penderfyniad;
- Rhoi cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr agored i niwed, yn cynnwys y rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl; plant sy'n derbyn gofal/sy'n gadael gofal; myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio; y rhai sydd mewn perygl o ymddieithrio; y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol; a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, yn cynnwys strategaethau 'cadw mewn cysylltiad' rheolaidd, atgyfeiriadau diogelu a, lle bo modd, mynediad at gwnsela ar-lein a gwasanaethau eraill;
- Cefnogi dysgwyr, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, i barhau â'u dysgu a symud ymlaen i'w cam nesaf o ddysgu a/neu gyflogaeth, yn cynnwys gweithio gyda chyrff proffesiynol a sefydliadau dyfarnu i helpu i sicrhau bod dysgwyr yn bodloni safonau perthnasol ar gyfer y proffesiwn neu'r diwydiant o'u dewis;
- Defnyddio'r adnoddau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt i ddarparu modelau deniadol ac arloesol o ddarparu ar-lein/o bell, a dylent rannu arfer da i gynnig y cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr;
- Sicrhau bod cyfleoedd dysgu ac asesu, adnoddau a chefnogaeth i ddysgwyr ar gael yn ddwyieithog;
- Cyfathrebu a gweithio ar y cyd i sicrhau cysondeb dulliau gweithredu a chyfleoedd ledled Cymru lle bo hynny'n bosibl;
- Gwerthuso effaith newidiadau i ddarparu ym mhob cyfrwng, a chadw tystiolaeth a data, lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, i'w helpu i wneud hynny;

- Bod yn eglur ac yn dryloyw wrth gyfathrebu â'u dysgwyr, staff a chymunedau ynghylch newidiadau a'r rhesymau amdanynt;
- Bod yn rhagweithiol wrth ddatblygu atebion i'r heriau dysgu ochr yn ochr â'r heriau iechyd, economaidd a chymdeithasol ehangach sy'n deillio o effeithiau Covid-19 ar economi a chymdeithas Cymru; a
- Lle bynnag y bo modd gwneud hynny, cynnwys dysgwyr wrth wneud penderfyniadau, nodi datrysiadau a gweithredoedd ac wrth eu rhoi ar waith.

Yn ei dro, bydd **Llywodraeth Cymru** yn gwneud y canlynol:

- Cydweithio'n agos â'n partneriaid, yn cynnwys Estyn, Cymwysterau Cymru, Jisc, Gyrfa Cymru, CCAUC, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyrff cynrychioli'r sector, undebau addysgu, darparwyr a dysgwyr i sicrhau dull cynhwysfawr o fynd i'r afael â heriau cyffredin;
- Lle bo hynny'n bosibl, sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyflym wrth wneud newidiadau i bolisi, cyllid a gofynion ar ddarparwyr, yn seiliedig ar dystiolaeth a dealltwriaeth gytbwys o'r goblygiadau;
- Rhoi cymaint o hyblygrwydd ag sy'n bosibl i ddarparwyr gefnogi eu penderfyniadau a'u gweithredoedd eu hunain;
- Ymateb yn gyflym, yn effeithlon ac yn gywir i ymholiadau a cheisiadau, ac ymgorffori themâu allweddol sy'n codi o ymholiadau i Gwestiynau Cyffredin a sianeli cyfathrebu eraill;
- Sefydlu cynllun cyfathrebu i sicrhau bod negeseuon allweddol yn cael eu cyfleu i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr, darparwyr, cyflogwyr, partneriaid cymunedol a rhanddeiliaid;
- Ailgyfeirio adnoddau staff i feysydd lle mae angen, gohirio gweithgareddau lle gall hyn helpu i leihau'r baich ar ddarparwyr a neilltuo adnoddau i gefnogi ymateb y sector i Covid-19;
- Cefnogi dysgu proffesiynol ac addysgeg ynghylch darparu dysgu ar-lein a chyfunol yn Gymraeg a Saesneg;

- Datblygu a rhannu gwybodaeth sylfaenol am y farchnad lafur i lywio cynllunio a darpariaeth er mwyn diwallu anghenion newydd dysgwyr a'r economi, yn cynnwys gofynion sgiliau dwyieithog;
- Gweithio'n strategol ar draws timau ac adrannau i sicrhau dull cydgysylltiedig ar draws y sectorau addysg a gyda Busnes Cymru; ac
- Ymgysylltu'n rheolaidd â'r sector, ei gyrff cynrychioli, cynrychiolwyr dysgwyr a rhanddeiliaid eraill i rannu gwybodaeth a cheisio adborth, trwy Fwrdd Newid AHO a rhwydweithiau eraill.

# Meysydd cyflawni allweddol

Rydym wedi nodi chwe maes cyflawni allweddol, sy'n cael eu hamlinellu isod. Rydym yn mabwysiadu agwedd eang sy'n edrych ar sefydlogrwydd y rhwydwaith darparwyr a gwerthuso effaith y pandemig Covid-19 ar y sector ôl-16, yn ogystal â chamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar ddarparu a chefnogi dysgu. Bwriad y cynllun yw adlewyrchu amrywiaeth y dysgwyr, y rhaglenni a'r cymwysterau yn y sector ôl-16, yn ogystal â'r gwahanol berthnasoedd rhwng Llywodraeth Cymru a darparwyr dysgu.

## 1. Dilyniant dysgwyr a phontio

**Byddwn yn:**

- gweithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cwblhau eu cymwysterau a symud ymlaen i'r cam nesaf o ddysgu a/neu gyflogaeth, gan wneud yn siŵr fod asesiadau cyfrwng Cymru ar gael;
- gweithio gyda'r sector ôl-16 i sicrhau bod dychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb yn digwydd yn ddiogel a than reolaeth
- gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Addysg, Consortia Rhanbarthol, Gyrfa Cymru, canolfannau Seren, awdurdodau lleol, darparwyr a'r sector Addysg Uwch o sicrhau bod cynnwys dysgu ar gael i baratoi dysgwyr ar gyfer pontio;
- cefnogi mynediad parhaus i adnoddau dwyieithog a chefnogaeth i ddysgwyr trwy gydol cyfnod yr haf i greu ffyrdd newydd o ymgysylltu, a chynyddu i'r eithaf gallu dysgwyr i symud ymlaen yn hyderus i'w cam nesaf o ddysgu;
- ystyried sut y gall dysgwyr gefnogi ei gilydd a chynnydd eu dysgu eu hunain yn wyneb y tarfu ar eu rhaglenni dysgu; a
- cynorthwyo dysgwyr, eu rhieni a'u gofalwyr i gynnal ymgysylltiad â dysgu.

## 2. Dysgu o bell

**Byddwn yn:**

- adolygu capasiti a sgiliau yn y sector ôl-16 i ddarparu dysgu a chymorth ddwyieithog ar-lein;
- adolygu risgiau a chyfleoedd cyflwyno dysgu ar-lein helaeth ac estynedig, yn cynnwys diogelwch ar-lein, seiberddiogelwch a chapasiti'r rhwydwaith;
- sicrhau bod dysgwyr sydd wedi'u hallgáu o'r byd digidol yn meddu ar yr offer, y cysylltedd a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i barhau â'u dysgu;
- cefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder gyda dysgu ar-lein, dysgu cyfunol a dysgu o bell ac asesu ym mhob cyfrwng;
- gweithio gyda'r sector i wella argaeledd ac ansawdd adnoddau dysgu dwyieithog, yn enwedig o ran dysgu galwedigaethol, Seren a dysgu oedolion;
- archwilio cyfleoedd i ehangu argaeledd a'r defnydd o ddysgu dwyieithog ar-lein i gynorthwyo unigolion sydd angen uwchsgilio neu ailsgilio; a
- darparu cefnogaeth a chyngor i'r sector trwy Jisc, ar seilwaith technegol ac arfer digidol.

## 3. Llesiant ac ymgysylltiad dysgwyr

**Byddwn yn:**

- sicrhau parhad cyllid cymorth i ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig;
- cefnogi iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a staff;
- gweithio gyda'r rhwydwaith darparwyr i ddadansoddi effaith Covid-19 ar gyfraddau cadw a gadael dysgwyr;
- rhoi trefniadau ar waith i fonitro a chefnogi prentisiaid a ddiswyddwyd neu a roddwyd ar ffyrlo o ganlyniad i Covid-19; ac
- ystyried sut i gynorthwyo'r dysgwyr sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio o ddysgu, yn cynnwys cynllunio llwybrau iddynt ail-ymgysylltu.

## 4. Cymorth i gyflogaeth ac adferiad economaidd

**Byddwn yn:**

- gweithio gyda Cymru'n Gweithio (Gyrfa Cymru) i sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion di-waith yn parhau i dderbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ynghylch dysgu, sgiliau a chymorth cyflogadwyedd;
- cyfeirio a hyrwyddo dysgu ar-lein ar gyfer gweithwyr ar ffyrlo a'r di-waith;
- adolygu trefniadau ar gyfer cyflwyno rhaglenni cyflogadwyedd diwygiedig ar gyfer oedolion a phobl ifanc;
- gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a'r Grwpiau Ymateb Cyflogaeth Rhanbarthol i asesu sut y gellir mynd i'r afael â newid sgiliau a blaenoriaethau economaidd, yn cynnwys trwy gyflogadwyedd, dysgu galwedigaethol a dysgu rhan-amser i oedolion;
- sicrhau bod cynllunio ac ariannu dysgu ôl-16 yn adlewyrchu anghenion sy'n newid, yn cynnwys ymatebion hyblyg i ddiswyddo a diweithdra; ac
- ymateb i lefelau NEET a diweithdra ymhlith pobl ifanc a gweithio gyda Gyrfa Cymru i gefnogi pobl ifanc i ail-ymgysylltu, a galluogi a chynnal ymlyniad â'r farchnad lafur.

## 5. Hybu sefydlogrwydd a chadernid

**Byddwn yn:**

- sicrhau parhad cyllid i ddarparwyr cyn belled ag y bo modd;
- sefydlu gofynion clir ynglŷn ag unrhyw drefniadau ar gyfer rhoi staff darparwyr ar ffyrlo;
- dadansoddi'r effaith ar recriwtio dysgwyr;
- monitro'r effaith ar iechyd ariannol darparwyr;
- gweithio gyda'r sector i ddiffinio a chyflwyno patrwm "y normal newydd" o ddarparu dysgu, yn seiliedig ar gyngor gwyddonol;
- adolygu'r cymorth i staff wrth ddatblygu a darparu dulliau amgen o ddysgu, addysgu ac asesu ym mhob cyfrwng;

- adolygu a diwygio trefniadau ar gyfer comisiynu rhaglenni prentisiaeth a chyflogadwyedd; ac
- asesu a chryfhau capasiti'r rhwydwaith i ymateb i gylchoedd cadw pellter cymdeithasol yn y dyfodol.

## 6. Gwerthuso a diogelu'r dyfodol

**Byddwn yn:**

- nodi "gwersi a ddysgwyd" o'n hymateb i Covid-19;
- nodi a rhannu arferion da, yn cynnwys dulliau arloesol o ddarparu dysgu, cefnogi dysgwyr a dysgu proffesiynol;
- sefydlu trefniadau diwygiedig ar gyfer mesurau cynllunio, cyllido a pherfformiad;
- gwerthuso effaith Covid-19 ar ddysgwyr ac ar y sector yn ei gyfanrwydd;
- nodi dysgu y gellir ei gymhwyso'n effeithiol i heriau parhad busnes yn y dyfodol; a
- dod o hyd i gyfleoedd i gadw'r deilliannau cadarnhaol, fel llai o fiwrocratiaeth, gwneud penderfyniadau cyflym, mwy o ddysgu ar-lein, a chyfathrebu gwell.

